



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YSTADEGAU

# Data o brofion ar gyfer coronafirws (COVID-19): hyd at 19 Gorffennaf 2020

Diweddariad gwybodaeth reoli ar brofion coronafirws hyd at 19 Gorffennaf 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Gorffennaf 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## 1. Ffigurau penawdau cenedlaethol

---

## 2. Cefndir

---

## 3. Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

---

## 4. Manylion cyswllt

---

# 1. Ffigurau penawdau cenedlaethol

## Prif ganlyniadau

- Roedd y gallu i brofi yn labordai GIG Cymru yn 15,157 ar 19 Gorffennaf 2020. Nid yw hyn yn cynnwys y gallu i brofi yn labordai'r DU lle mae samplau rhai preswylwyr o Gymru'n cael eu prosesu.
- Am 1yp ar 19 Gorffennaf 2020, roedd labordai GIG Cymru wedi awdurdodi 325,910 o brofion.
- Cynhaliwyd cyfanswm o 199,064 o brofion ar weithwyr hanfodol a preswylwyr yng Nghymru.
- Ar gyfer samplau a broseswyd mewn labordai GIG Cymru yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, dychwelwyd 48.6% o'r profion a awdurdodwyd mewn unedau profi cymunedol mewn dau ddiwrnod o gymharu ag 83.0% mewn canolfannau profi rhanbarthol a 96.4% mewn samplau a gasglwyd mewn ysbytai.
- Ar gyfer samplau a broseswyd mewn labordai heblaw GIG Cymru yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, dychwelwyd 82.6% o orchmynion profion cartref gofal trwy'r porth cartref gofal o fewn dau ddiwrnod o'i gymharu ag 86.5% o'r profion cartref a awdurdodwyd o fewn dau ddiwrnod a 99.9% mewn canolfannau profi rhanbarthol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Evch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Erbyn diwedd 19 Gorffennaf 2020, mae 38,313 o brofion gwrthgorff wedi'u hawdurdodi ar drigolion Cymru a broseswyd trwy labordai GIG Cymru gyda 4,315 o ganlyniadau cadarnhaol.

Ar hyn o bryd, grwpiau â blaenoriaeth yn unig sy'n medru cael profion gwrthgyrff gydag esboniad pellach ar ein tudalennau polisi: [profion gwrthgyrff](#).

## Siart 1: Cyfanswm y profion a awdurdodwyd ar ddiwedd 19 Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Cyfanswm y profion a awdurdodwyd ar ddiwedd 19 Gorffennaf 2020 (MS Excel)

Mae'r data ar gyfer 19 Gorffennaf yn cynnwys canlyniadau a awdurdodwyd hyd at 1yp yn unig.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau eu gwaith i ddod â phroffion sydd wedi'u hawdurdodi yng Nghymru'r tu allan i'r GIG (Labordy Lighthouse) ynghyd â phroffion wedi'u prosesu mewn labordy GIG Cymru.

- Mae nifer y profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru wedi bod ar gynnydd tan ddechrau mis Mehefin lle bu cwmp cyn cynnydd bach dros yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ychedig ddyddiau diwethaf.

- Y nifer mwyaf o brofion a awdurdodwyd mewn un diwrnod calendr oedd ar 10 Gorffennaf, pan awdurdodwyd 7,270 o brofion yn labordai GIG Cymru a labordai heblaw am rai GIG Cymru.
- Mae'r profion hyn yn cynnwys samplau preswylwyr o Gymru sydd wedi'u cymryd mewn canolfannau profi yn Lloegr, rhai canolfannau profi yng Nghymru, profion a archebir trwy'r porth cartref gofal a pheccynnau profi gartref.
- Proseswyd y sampl cyntaf mewn labordy nad yw'n labordy GIG Cymru ar gyfer preswilydd o Gymru ar 24 Ebrill. Cynyddodd nifer y profion ar ôl cyflwyno profion cartref ar 18 Mai.
- Mae profion a broseswyd trwy labordai heblaw GIG Cymru wedi cynyddu tua diwedd mis Mehefin. Mae hyn yn bennaf oherwydd i drigolion Cymru ddechrau archebu profion trwy'r porth cartref gofal sydd newydd ddod ar gael.

Oherwydd mater technegol gyda phlatform y DU ni chafodd nifer o brofion ac achosion cadarnhaol o labordai Goleudy (labordai heblaw GIG Cymru) eu llwytho i mewn i systemau cenedlaethol gyda dros 7,000 o brofion heb eu cynnwys rhwng prynhawn Mercher a nos Wener. Mae'r mater prosesu hwn bellach wedi'i ddatrys ac mae'r ôl-groniad o ddata profi wedi'i lwytho i mewn i systemau gyda 12,295 o brofion awdurdodedig newydd wedi'u nodi ar 19 Gorffennaf (am y 24 awr i 1yp ar 18 Gorffennaf) wedi'u cyhoeddi yn atodiad y tablau data cysylltiedig. Mae'r rhain yn dangos nifer y profion newydd a adroddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cyfnod o 24 awr ac nid ydynt yn cynrychioli nifer y profion a awdurdodwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Gellir gweld adlewyrchiad mwy cywir o brofion awdurdodedig yn ol dyddiad awdurdodedig yn Siart 1 a Thabl 1 yn y tablau data cysylltiedig.

## Cyfanswm y profion a chanlyniadau ar gyfer gweithwyr hanfodol a preswlydd erbyn diwedd y dydd ar 19 Gorffennaf 2020

Categori	Achosion positif cronus	Achosion negatif cronus	Nifer profion cronus
----------	-------------------------	-------------------------	----------------------

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gweithiwr allweddol: cartref gofal	1,331	69,262	70,593
Gweithiwr allweddol: addysg	23	789	812
Gweithiwr allweddol: argyfwng	149	974	1,123
Gweithiwr allweddol: gofal iechyd	6,348	23,181	29,529
Gweithiwr allweddol: hostel neu byw â chefnogaeth	16	703	719
Gweithiwr allweddol: arall neu anhysbys	499	4,882	5,381
Gweithiwr allweddol: carchardai neu canolfanau cadw	25	124	149
Preswlydd: cartref gofal	1,273	33,587	34,860
Preswlydd: addysg	1	154	155
Preswlydd: hostel neu fyw â chefnogaeth	54	1,917	1,971
Preswlydd: arall neu anhysbys	102	574	676
Preswlydd: canolfan carchardai neu gadw	2	25	27
Preswlydd neu weithiwr allweddol: cartref gofal	61	52,436	52,497
Preswlydd neu allwedd gweithiwr: addysg	2	10	12

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

Preswyllydd neu weithiwr allweddol: hostel neu byw â chefnogaeth	11	25	36
---	----	----	----

---

Preswyllydd neu weithiwr allweddol: carchardai neu canolfanau cadw	109	415	524
---	-----	-----	-----

---

## Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar hyn o bryd mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud gwelliannau i'r categori gweithwyr critigol a phreswylwyr yn eu data. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio diwygiadau yn y data a gwahanol gategorïau o gymharu â chyhoeddiadau blaenorol.

- Cynhaliwyd ychydig dan 79% o'r holl brofion ar weithwyr hanfodol ar breswylwyr cartrefi gofal neu weithwyr cartrefi gofal.
- Cafwyd canlyniad positif i 21% o'r profion a gynhaliwyd ar weithwyr gofal iechyd.


Mae nifer y profion a gofnodir ar gyfer gweithwyr critigol yn dibynnu ar y categori gweithwyr critigol sy'n cael ei gofnodi yn y system pan gymerwyd y sampl. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng gweithwyr allweddol a thrigolion ar gyfer samplau a broseswyd mewn labordai heblaw GIG Cymru ac maent wedi'u cynnwys gyda'i gilydd yn y tabl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 2: Cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru o fewn un, dau a thri diwrnod erbyn diwedd 19 Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru o fewn un, dau a thri diwrnod erbyn diwedd 19 Gorffennaf 2020 (MS Excel)

Ers dechrau profi hyd at ddiwedd y dydd ar 19 Gorffennaf 2020:

- Awdurdodwyd 108,065 o brofion mewn unedau profi coronafeirws, gydag 70% o'r canlyniadau yn cael eu hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod.
- Awdurdodwyd 73,487 o brofion mewn ysbyty, gydag 94% o'r canlyniadau yn cael eu hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod.
- Awdurdodwyd 59,269 o brofion mewn unedau profi poblogaeth, gydag 82% o'r canlyniadau yn cael eu hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod.

Nid yw'r perfformiad canlyniadau a ddangosir yn ffigwr cyflawn o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n mesur o ddyddiad cofnodi casglu'r sampl i'r amser y bydd y canlyniad yn cael ei awdurdodi yn labordai. Nid yw'n rhoi awgrym o ba mor hir y mae'n ei gymryd i unigolyn gael y canlyniad ar ôl cymryd y prawf.

Rhennir data ar yr amser a gymerir i dderbyn canlyniad prawf COVID-19 i


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddangos y gwahanol lwybrau ar gyfer cael prawf, gan y bydd hyn yn cael effaith ar yr amser a gymerir.

### Siart 3: Cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn labordai heblaw am rai GIG Cymru o fewn un, dau a thri diwrnod erbyn diwedd 19 Gorffennaf 2020



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn labordai heblaw am rai GIG Cymru o fewn un, dau a thri diwrnod erbyn diwedd 19 Gorffennaf 2020 (MS Excel)

Ers dechrau profi hyd at ddiwedd y dydd ar 19 Gorffennaf 2020:

- Awdurdodwyd 52,497 o broffion cartref gofal, gydag 92% o'r canlyniadau yn cael eu hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod.
- Awdurdodwyd 28,588 o broffion cartref, gydag 76% o'r canlyniadau yn cael eu hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod.
- Awdurdodwyd 12,551 o broffion mewn unedau profi poblogaeth a broseswyd mewn labordai heblaw GIG Cymru, gyda 97% o'r canlyniadau wedi'u hawdurdodi o fewn dau ddiwrnod

Nid yw'r perfformiad canlyniadau a ddangosir yn ffigwr cyflawn o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n mesur o ddyddiad cofnodi casglu'r sampl i'r amser y bydd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



canlyniad yn cael ei awdurdodi yn labordai canolog lechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw'n rhoi awgrym o ba mor hir y mae'n ei gymryd i unigolyn gael y canlyniad ar ôl cymryd y prawf.

## 2. Cefndir

Rydym yn cyhoeddi'r data i ddarparu crynodeb wythnosol o'r gweithgarwch profi yng Nghymru, gan gynnwys profion ar weithwyr hanfodol ac amseroldeb y profion.

Mae mwyafrif y data a gyflwynir yma yn seiliedig ar y profion a broseswyd ac a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru ar breswylwyr o Gymru. Mae hyn yn cynnwys data ar weithwyr hanfodol ac amseroldeb y profion.

Rydym hefyd wedi darparu data ar nifer a chanlyniadau'r profion a broseswyd gan labordai heblaw am rai GIG Cymru ar breswylwyr o Gymru fel rhan o'r system ar draws y DU. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n gwneud gwaith i adolygu'r data a phenderfynu sut y mae'n cysylltu â'r data presennol o brofion a gynhaliwyd yn labordai'r GIG yng Nghymru. Gan fod y gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill, nid yw'r ffigurau wedi'u cyfuno ar hyn o bryd.

Mae'r data yn y ddogfen hon yn seiliedig ar gymysgedd o ddyddiadau ar wahanol gyfnodau yn y broses brofi, fel dyddiad y sampl, y dyddiad prosesu a'r dyddiad awdurdodi. Mae pob tabl yn y daenlen Data Agored yn manylu ar yr amserlen adrodd.

Mae ein hesboniad data o dan y teitl **Deall data ar brofion coronafeirws (COVID-19)**

yn rhoi esboniad pellach ar y data a ddefnyddiwyd gan gynnwys y gwahaniaeth mewn dyddiadau a ffynonellau data.

Mae profion gwrthgyrff wedi'u cynnwys am y tro cyntaf yn y cyhoeddiad hwn. Defnyddir profion gwrthgyrff COVID-19 i weld os yw person eisoes wedi cael y feirws. Mae'r prawf gwrthgyrff yn gweithio drwy gymryd sampl o waed a'i brofi i weld os oes gwrthgyrff yn bresennol. Caiff gwrthgyrff eu cynhyrchu gan y corff

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mewn ymateb i haint, ac maent fel rheol i'w gweld yn y gwaed tua phythefnos ar ôl i berson gael ei heintio.

Dim ond i grwpiau blaenoriaeth y mae profion gwrthgyrff ar gael ar hyn o bryd gyda phrofion wedi'u blaenoriaethu ar gyfer sampl o staff ysgolion sydd wedi gweithio o'r blaen mewn hybiau addysg a gweithwyr gofal iechyd. Gellir gweld esboniad pellach o brofion gwrthgyrff yng Nghymru ar ein tudalennau polisi: [Deall data ar brofion coronafeirws \(COVID-19\)](#).

Mae'r data yn y ddogfen hon yn gywir am 23:59 ar 19 Gorffennaf.

### 3. Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Mae'r data yn wybodaeth reoli sydd wedi'i chasglu i gefnogi gweithgarwch profi. Rydym yn cyhoeddi'r data i ddarparu crynodeb amserol o weithgarwch profi ond nid yw wedi bod yn destun yr un lefel o sicrwydd ansawdd â'r ystadegau swyddogol, gyda'r data yn destun diwygiadau yn y dyfodol. Daw'r crynodeb wythnosol hwn o wybodaeth am brofion COVID-19 o [ddangosfwrdd gwyliadwriaeth dyddiol lechyd Cyhoeddus Cymru](#), yn ogystal â manylion ychwanegol ar nifer y profion ar weithwyr hanfodol a lleoliad casglu'r sampl i'w brofi. Yn ogystal, mae data ar y nifer o brofion a broseswyd mewn labordai heblaw am rai GIG Cymru, a ddarparwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, wedi'u cynnwys yn y grynodeb.

Mae'r wybodaeth hon yn helpu i fonitro effaith COVID-19 a chyfrannu at fonitro a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

### Perthnasedd

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dadansoddi data profion cleifion gan System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru fel rhan o'u cyfrifoldebau cadw gwyliadwriaeth ar glefydau. Yn ogystal, defnyddir yr ystadegau hyn at sawl diben arall:

- deall effaith pandemig COVID-19

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- cefnogi'r cyngor seiliedig ar dystiolaeth am adolygiadau o drefniadau'r cyfyngiadau symud
- cyfrannu at waith monitro a gwneud penderfyniadau yng Nghymru a'r DU

## Cywirdeb

Mae Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy lechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am wneud gwaith gwyliadwriaeth ar heintiau anadlol yng Nghymru, gan gynnwys y coronafeirws (COVID-19).

Mae data clinigol yn cael eu cadw yn System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru, gan gynnwys data am brofion COVID-19. Bydd y data yn cael eu defnyddio a'u trin gan ddadansoddwyr lechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys dileu achosion positif sydd wedi'u dyblygu ar y dangosfwrdd gwyliadwriaeth dyddiol. Mae'r data yn cael eu hadolygu yn ddyddiol a'u hystyried fel data dros dro yn amodol ar eu diwygio yn y dyfodol.

Mae gwahanol ddyddiadau profi wedi'u defnyddio wrth roi gwybod am ddata profion yn dibynnu ar natur y data a'u defnydd. Ar gyfer data gwyliadwriaeth cyflym defnyddiwyd y dyddiad prawf a awdurdodwyd ac mae wedi'i gynnwys yn y ffigurau pennawd a gyflwynwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, ond ar gyfer gwyliadwriaeth fanwl dros amser defnyddiwyd dyddiad y sampl.

Mae profion sydd wedi'u hawdurdodi drwy labordai heblaw am rai GIG Cymru ar breswylwyr o Gymru wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn. Mae hyn yn cynnwys samplau gan breswylwyr o Gymru mewn canolfannau profi COVID-19 drwy ffenest y car yn y DU a phecynnau profi gartref. Cyflwynir y set ddata fel nifer y profion a gall gynnwys unigolion a brofwyd fwy nag unwaith. Caiff rhai canlyniadau eu dosbarthu yn rhai amhendant, sy'n golygu na allai'r labordy gael canlyniad dilys o'r sampl swab ac felly nad oedd yn bosibl nodi a oedd SARS-CoV-2 yn bresennol. Gallai hyn ddigwydd am nifer o resymau technegol. Yn dilyn canlyniad amhendant, argymhellir y dylai'r unigolyn gael prawf arall.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n adolygu'r data er mwyn penderfynu sut y mae'n cysylltu â'r data presennol o brofion a gynhaliwyd yn labordai'r GIG yng Nghymru. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, nid yw'r ffigurau hyn wedi cael eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyfuno na'u cynnwys yn y cyfanswm nifer o achosion ar ddangosfwrdd gwylidwriaeth dyddiol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein hesboniad data: [Deall data ar brofion coronafeirws \(COVID-19\)](#).

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn darparu data o 18 Mawrth 2020 ymlaen.

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn wedi'i gyhoeddi ac yna ei gynnwys yn [adran Ystadegau ac Ymchwil ein gwefan](#). Mae'n cynnwys Taenlen Dogfen Agored fel y gall defnyddwyr gael mynediad uniongyrchol i'r data sy'n sail i'r siartiau yn y datganiad hwn.

## Cymaroldeb

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu [dangosfwrdd gwylidwriaeth dyddiol](#) lle gall defnyddwyr weld yr wybodaeth ddiweddaraf ar y nifer o brofion a awdurdodwyd, yr unigolion a brofwyd (profion a gynhaliwyd) ac achosion positif.

Mae'r data ar gyfer Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau [Coronafeirws \(COVID-19\) yn y DU](#) ar wefan GOV.UK.

Mae'r data ar gyfer yr Alban yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau [Coronafeirws \(COVID-19\): data dyddiol yr Alban](#) ar wefan GOV.SCOT.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ddyddiol am brofion ac achosion positif.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy'n ymarferol, maent wedi'u casglu a'u dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Rydym yn parhau i ddatblygu'r data a gasglwyd a'r broses sicrwydd ansawdd i wella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y nodau yw creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ('dangosyddion cenedlaethol') y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth ar y dangosyddion, ynghyd â disgrifiad o bob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd gyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol a gellir eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llunio asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Diweddariad nesaf

Datganiad ystadegol wythnosol yw hwn ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei gyhoeddi am 12.30yp bob dydd Mawrth. Byddwn yn adolygu hyn yn unol ag anghenion newidiol y defnyddwyr.

Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ddydd Mawrth 28 Gorffennaf.

## Rydym eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn. Gallwch anfon adborth dros e-bost i [kas.covid19@llyw.cymru](mailto:kas.covid19@llyw.cymru).

## 4. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Matthew Curds  
Llinell Ymholiadau Cyffredinol  
Ffôn: 0300 025 5050  
E-bost: [kas.covid19@llyw.cymru](mailto:kas.covid19@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 90/2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Data o brofion ar gyfer coronafirws \(COVID-19\): hyd at 19 Gorffennaf 2020](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-brofion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/data-o-broffion-ar-gyfer-coronafirws-covid-19-hyd-19-gorffennaf-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).